WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tachwedd 2010

**Awdur: Gabrielle Smith** **Cyf: 467A2010**

# Arlwyo mewn Ysbytai

# **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

Mae gwasanaeth arlwyo a threfniadau rheoli maeth Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn cynnwys sawl agwedd ar arfer da cydnabyddedig, fodd bynnag mae lle i wella gwaith sgrinio maeth a phrosesau cyfathrebu rhwng staff nyrsio ac arlwyo.

## Cynnwys


**Crynodeb ac Argymhellion** 4

**Adroddiad Manwl**

**Trefniadau cynllunio a rheoli strategol** 8

Caiff y gwasanaeth arlwyo ei gynllunio'n effeithiol

**Cynhyrchu bwyd a rheoli costau** 10

Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i fonitro costau, mae angen gwneud mwy i reoli costau gwasanaethau arlwyo

**Dosbarthu bwyd i gleifion** 16

Mae cleifion yn cael prydau bwyd mewn cyflwr da ond mae angen gwella trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng staff nyrsio ac arlwyo

**Diwallu anghenion maethol cleifion a'u helpu i wella** 18

Mae gwasanaeth arlwyo'r Ymddiriedolaeth yn ddigon hyblyg i sicrhau bod cleifion yn cael y maeth sydd ei angen arnynt ond mae angen cydymffurfio'n well â'r llwybr maethol

**Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** 24

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i geisio barn cleifion a'u cynnwys mewn adolygiadau ansawdd, ac mae lefelau boddhad cleifion yn gymharol uchel

**Atodiadau**

Dull archwilio 26

Data ariannol 28

Profiad cleifion 32

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae gwasanaethau arlwyo ysbytai yn rhan hanfodol o'r gofal a roddir i gleifion o gofio bod prydau bwyd maethlon, o ansawdd da yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu cleifion i adsefydlu a gwella. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gamau cadarn i gynllunio a chydgysylltu amrywiaeth o brosesau gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Mae'n rhaid i'r holl grwpiau staff amrywiol sy'n rhan o'r prosesau hyn gyfathrebu'n dda â'i gilydd, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Dylai hyn arwain at y canlyniad dymunol, sef gwasanaeth arlwyo sy'n hyblyg, yn gosteffeithiol ac yn darparu dewis da o brydau bwyd maethlon a all ddiwallu anghenion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maethol cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid gwneud trefniadau i helpu cleifion i fwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n gydnaws â bwyta.
3. Mae nifer o fentrau Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod pwysigrwydd bwyd ysbytai o ran helpu cleifion i wella. Y diweddaraf o blith y rhain yw'r *Llwybr Gofal Maethol i Ysbytai* a'r siartiau cofnodi bwyd a hylif a ddatblygwyd ar gyfer Cymru gyfan. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi datblygu rhaglen hyfforddi o'r enw *Gwella Gofal Maethol* ar gyfer rheolwyr wardiau er mwyn ategu hyfforddiant lleol. Mae'r cynlluniau hyn yn ategu menter *Rhydd i Arwain, Rhydd i Ofalu*, a gynlluniwyd i rymuso prif nyrsys ward i gymryd mwy o reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd ar eu ward. Caiff arfer gorau o ran gofal maethol ei ymsefydlu ymhellach drwy *Safonau Gofal Iechyd* penodol (Safon 14 - Maeth) [1] a *Safonau Hanfodion Gofal* (Safon 9 - Bwyta ac Yfed)[2].
4. Dangosodd gwaith gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02, er bod rhai enghreifftiau calonogol o arfer da o ran gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai ledled Cymru, bod angen i'r rhain gael eu hefelychu'n ehangach a bod angen cryfhau arfer mewn nifer o feysydd. Ers 2001-02, mae data blynyddol ar berfformiad cyfleusterau a gasglwyd gan Ystadau Iechyd Cymru wedi amlygu amrywiadau sylweddol rhwng ysbytai o ran costau dyddiol bwydo claf, a phroblemau sy'n parhau o ran gwastraff bwyd - cafodd rhyw 880,000 o brydau bwyd cyfan eu gwastraffu yn 2008-09. Hefyd, awgrymodd data Ystadau Iechyd Cymru mai darniog yw dosbarthiad arfer da cydnabyddedig, megis diogelu amseroedd bwyd a dadansoddi maeth bwydlenni.

---

[1] Llywodraeth y Cynulliad, *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well, Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*, 2010.

[2] Llywodraeth y Cynulliad, *Hanfodion Gofal: canllawiau i staff iechyd a gofal cymdeithasol: gwella ansawdd agweddau sylfaenol ar iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion,* 2003.

5. Felly penderfynodd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'n amserol cynnal archwiliad arall o wasanaethau arlwyo mewn ysbytai i adolygu'r cynnydd a wnaed ers gwaith y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02, ac archwilio i ba raddau mae'r arferion a nodir yn y *Llwybr Gofal Maethol i Ysbytai* yn cael eu mabwysiadu.

6. Nod ein hadolygiad oedd canfod a yw ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig. Ystyriwyd 'cadwyn fwyd' y gwasanaethau arlwyo yn yr holl ysbytai o'r camau cynllunio a chaffael, hyd at y systemau dosbarthu bwyd i'r ward a rheoli amseroedd bwyd.

7. Fel rhan o'n gwaith yn yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2010, cynhaliwyd ymweliad maes â'r Uned Gynhyrchu Ganolog (CPU) ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf gan mai'r uned honno sydd wedi paratoi prydau bwyd i gleifion a phrydau bwyd nad ydynt i gleifion ers 2005. Caiff canfyddiadau ein harchwiliad eu llywio gan ddadansoddiad o ddata ariannol ar elfennau'r gwasanaeth arlwyo i gleifion ac elfennau'r gwasanaeth arlwyo nad yw i gleifion, sesiynau arsylwi amseroedd bwyd ar dair ward cleifion mewnol, adolygiad o nodiadau achos yng nghofnodion 13 o gleifion ac arolwg cleifion sy'n cynnwys barn wyth claf ar eu profiad o fwyd ysbytai. Ceir manylion pellach am y dull archwilio yn Atodiad 1.

8. Ein casgliad cyffredinol yw bod gwasanaeth arlwyo a threfniadau rheoli maeth yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys sawl agwedd ar arfer da cydnabyddedig, fodd bynnag mae lle i wella gwaith sgrinio maeth a phrosesau cyfathrebu rhwng staff nyrsio ac arlwyo. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Caiff y gwasanaeth arlwyo ei gynllunio'n effeithiol:
  - mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull sefydledig o ddarparu gwasanaethau arlwyo a ategir gan bolisïau arlwyo a maeth;
  - mae'r Grŵp Gwella Maeth Cleifion Mewnol yn cynnig ffordd briodol o adolygu cynlluniau a'r gwasanaeth a ddarperir
- Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i fonitro costau, mae angen gwneud mwy i reoli costau gwasanaethau arlwyo:
  - caiff gwariant ei fonitro a chymerir camau i wella effeithlonrwydd;
  - costau net y gwasanaethau arlwyo fesul diwrnod claf yw'r isaf yng Nghymru ond caiff llawer iawn o fwyd heb ei weini ei wastraffu;
  - mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu cymhorthdal o £106,000 y flwyddyn ar gyfer prydau bwyd nad ydynt i gleifion.
- Mae cleifion yn cael prydau bwyd mewn cyflwr da ond mae angen gwella trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng staff nyrsio ac arlwyo:
  - caiff cleifion eu helpu i baratoi ar gyfer eu prydau bwyd a rhoddir cyfle iddynt olchi eu dwylo cyn bwyta;
  - caiff y bwyd ei weini'n raenus ac mewn cyflwr da ac mae cleifion yn cael eu prydau bwyd yn gyflym ac yn effeithlon;
  - nid yw'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am anghenion deietegol cleifion bob amser yn effeithiol.

- Mae gwasanaeth arlwyo'r Ymddiriedolaeth yn ddigon hyblyg i sicrhau bod cleifion yn cael y maeth sydd ei angen arnynt ond mae angen cydymffurfio'n well â'r llwybr maethol:
  – mae bwydlenni yn darparu dewis eang o fwyd ac ar y cyfan, mae cleifion yn fodlon ar y dewis sydd ar gael;
  – mae trefniadau diogelu amser bwyd yn gweithio'n dda ar y cyfan;
  – ni chaiff pob claf ei sgrinio pan gaiff ei dderbyn i'r ysbyty er mwyn canfod unrhyw risg o ran maeth;
  – ni chaiff rhai cleifion sy'n wynebu risg uchel o ddiffyg maeth eu hatgyfeirio i gael asesiad deietegol;
  – ni cheir dull cyson o weithredu mewn perthynas â chynlluniau gofal maethol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i geisio barn cleifion a'u cynnwys mewn adolygiadau ansawdd, ac mae lefelau boddhad cleifion yn gymharol uchel:
  – cymerir camau i ofyn am farn cleifion a'u cynnwys mewn adolygiadau ansawdd er mwyn gwella gwasanaethau;
  – mae cleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ar y cyfan.

9. Mae pob adran o'r adroddiad manwl sy'n dilyn yn nodi'r arfer da roeddem yn chwilio amdano wrth wneud ein gwaith maes a'r hyn y gwnaethom ei ganfod. Ategir y gwaith hefyd gan ddadansoddiad manwl o gostau (Atodiad 2) ac arolwg cleifion (Atodiad 3).

## Argymhellion

10. Mae nifer o argymhellion yn codi o'r adolygiad hwn, ac fe'u rhestrir isod.

| Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei threfniadau ar gyfer gwasanaethau arlwyo a maeth yn mynd i'r afael â'r canlynol: | |
|---|---|
| A1 | Dylid asesu a yw'r trefniadau presennol ar gyfer adolygu perfformiad a risgiau posibl i'r gwasanaeth drwy Grŵp Rheoli Haint yr Ymddiriedolaeth a'r Grŵp Rheoli Risg Isadrannol yn ddigonol, ac os nad ydynt, dylid ymestyn cwmpas yr adroddiadau a gyflwynir i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth fel eu bod yn cynnwys dangosyddion perfformiad a risgiau posibl i'r gwasanaeth. |
| A2 | Dylid cwblhau'r cynlluniau i leihau lefel y cymhorthdal a ddefnyddir i gefnogi gwasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion. |
| A3 | Dylid adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer monitro gwastraff bwyd drwy:<br>• ystyried y rhesymau pam y caiff gormod o brydau bwyd eu hailgoginio, os bydd lefelau gwastraff yn uwch na throthwy y cytunwyd arno;<br>• cofnodi'r rhesymau pam y caiff gormod o brydau bwyd eu hailgoginio er mwyn canfod atebion i'r broblem;<br>• sicrhau bod y diwrnod a ddewisir bob mis i gyfrifo cyfraddau gwastraff blynyddol yn nodweddiadol o'r mis hwnnw. |

| | |
|---|---|
| A4 | Dylid gwella trefniadau cyfathrebu mewn perthynas ag anghenion deietegol cleifion drwy:<br>• ddatblygu a chytuno ar fformat i nodi anghenion deietegol pob claf fel y gall staff arlwyo ar wardiau gymryd archebion cleifion a pharatoi prydau bwyd yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel. |
| A5 | Dylid cydymffurfio'n well â systemau sgrinio maeth drwy:<br>• ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio â staff nyrsio;<br>• sicrhau y caiff rhesymau dros beidio â sgrinio cleifion mewn perthynas â risg o ran maeth eu cofnodi yn y nodiadau achos nyrsio;<br>• rhoi canllawiau ar ddefnyddio adnodd sgrinio maeth Moreland, gan gynnwys cadarnhau'r trothwy y dylid ei ddefnyddio i atgyfeirio cleifion i gael asesiad deietegol. |
| A6 | Dylid cytuno ar ddull gweithredu mewn perthynas â chynlluniau gofal maethol sy'n nodi nifer sylfaenol o gamau ar gyfer y lefelau risg gwahanol yn dibynnu ar sgôr risg Moreland. |

## Trefniadau cynllunio a rheoli strategol

11. Caiff y gwasanaeth arlwyo ei gynllunio'n effeithiol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull sefydledig o ddarparu gwasanaethau arlwyo a ategir gan bolisïau arlwyo a maeth;
- mae'r Grŵp Gwella Maeth Cleifion Mewnol yn cynnig ffordd briodol o adolygu cynlluniau a'r gwasanaeth a ddarperir.

12. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad hwn.

**Trefniadau cynllunio a rheoli strategol**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynllunio Gwasanaethau** | | |
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth a pholisi clir ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon ac effeithiol | ✓ | Cytunwyd ar ddull strategol yr Ymddiriedolaeth o roi'r gwaith o gynhyrchu prif brydau bwyd i gleifion a phrif brydau bwyd nad ydynt i gleifion ar gontract allanol gryn amser yn ôl. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y contract yn dod i ben yn yr haf ac roedd cynlluniau ar y gweill i dendro am y gwasanaeth.<br>Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i helpu i ddarparu gwasanaethau arlwyo a maeth a nodir rolau a chyfrifoldebau staff. |
| Caiff deietegwyr a chlinigwyr eu cynnwys yn llawn wrth ddatblygu strategaethau a pholisïau a chynllunio bwydlenni | ✓ | Caiff deietegwyr a chlinigwyr, drwy'r Grŵp Gwella Maeth Cleifion Mewnol amlddisgyblaethol, eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu polisïau mewn perthynas ag arlwyo a maeth ac adolygu tendrau am wasanaethau arlwyo. |
| Tystiolaeth y caiff staff arlwyo eu cyfateb i'r galw | ✓ | Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i sicrhau bod adnoddau staffio yn ateb y galw am wasanaethau arlwyo, er enghraifft, wrth gyfyngu ar oriau agor yr ystafell fwyta i staff/ymwelwyr. |
| **Trefniadau rheoli** | | |
| Mae atebolrwydd ar lefel weithredol am arlwyo a maeth wedi'i bennu'n glir | ✓ | Fel y swyddog arweiniol dros ddiogelwch ac ansawdd, y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol sy'n atebol am arlwyo a maeth. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Trefniadau rheoli** | | |
| Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael digon o wybodaeth am berfformiad ac arfer ym maes arlwyo a maeth | ✓ | Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi ystyried materion yn ymwneud ag arlwyo a maeth drwy elfennau o'r archwiliad Safonau Gofal Iechyd a Hanfodion Gofal. Ar hyn o bryd, caiff dangosyddion perfformiad a risgiau posibl i'r gwasanaeth eu hamlygu yng nghyfarfodydd Grŵp Rheoli Haint yr Ymddiriedolaeth a'r Grŵp Rheoli Risg Isadrannol. Dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ystyried a yw'r trefniadau hyn yn rhoi digon o sicrwydd neu ystyried ehangu cwmpas ei adroddiadau ar arlwyo a maeth fel eu bod yn cynnwys perfformiad yn erbyn targedau a risgiau posibl i'r gwasanaeth, fel boddhad cleifion, materion o ran archwiliadau iechyd yr amgylchedd, gwastraff bwyd a pherfformiad ariannol.<br><br>Ar hyn o bryd mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael gwybodaeth reolaidd am y cynnydd diweddaraf wrth weithredu Cynllun Cynaliadwyedd Ariannol y Ganolfan Ganser. Un o elfennau'r cynllun hwn yw'r angen i leihau'r cymhorthdal a roddir i'r cantîn staff. |
| Mae grŵp amlddisgyblaethol ar waith i oruchwylio'r gwasanaethau arlwyo a ddarperir | ✓ | Mae Grŵp Gwella Maeth Cleifion Mewnol amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar faeth ac mae ei aelodau yn cynnwys staff arlwyo, staff nyrsio, staff deietegol ac aelodau o'r Grŵp Cyswllt Cleifion. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter i drafod a datrys problemau'n ymwneud ag arlwyo a maeth. |
| Mae nyrs arweiniol wedi'i phenodi i helpu i weithredu'r strategaeth ac ymsefydlu arferion da o ran maeth | ✓ | Mae nifer o nyrsys yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol am agweddau gwahanol ar arfer maeth, fel diogelu amseroedd bwyd ac ar adeg ein harchwiliad, roedd yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i recriwtio arbenigwr nyrsio clinigol. Bydd deiliad y swydd yn arwain ar faterion maeth, megis bwydo enterig, addysg i nyrsys a rheoli llwybrau anadlu cleifion â chanser y pen a chanser y gwddf. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Trefniadau rheoli** | | |
| Mae disgrifiadau swydd a graddfeydd cyflog staff arlwyo yn gyson ymhob rhan o'r Ymddiriedolaeth | ✓/✗ | Mae cynorthwywyr arlwyo'r Ymddiriedolaeth yn cael cyflogau Band 1. Er y gall hyn fod yn briodol i'r Ymddiriedolaeth, mae byrddau iechyd cyfagos wedi tueddu i osod swyddi tebyg ym Mand 2 am eu bod yn rolau lle ceir cysylltiad â chleifion. Gall hyn effeithio ar y gallu i recriwtio a chadw staff yn y dyfodol, er nad oedd recriwtio yn broblem ar adeg ein harchwiliad.<br><br>Ar adeg ein harchwiliad, roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n adolygu rolau staff arlwyo a domestig gyda'r nod o greu gweithlu mwy hyblyg drwy gyflwyno rolau deuol ym maes arlwyo a glanhau. Byddai'r rolau deuol hyn yn cael eu gosod ym Mand 2.Fodd bynnag, mae llawer o fyrddau iechyd wedi gweld y daw manteision gwirioneddol yn sgîl cyflogi staff pwrpasol ar gyfer pob un o'r rolau hyn, gan eu bod yn canolbwyntio ar bethau gwahanol. |
| Mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn dderbyniol a chânt eu rheoli'n dda | ✓ | Caiff absenoldeb oherwydd salwch ei reoli'n effeithiol gan y gwasanaeth arlwyo ac mae cyfraddau absenoldeb yn dderbyniol. Mae'r gwasanaeth arlwyo'n llunio adroddiad ariannol wythnosol mewn perthynas â gwariant ar staff arlwyo, sy'n cynnwys faint o oriau a gollwyd drwy absenoldeb oherwydd salwch. |

## Cynhyrchu bwyd a rheoli costau

13. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i fonitro costau, mae angen gwneud mwy i reoli costau gwasanaethau arlwyo. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
    - caiff gwariant ei fonitro a chymerir camau i wella effeithlonrwydd;
    - costau net y gwasanaethau arlwyo fesul diwrnod claf yw'r isaf yng Nghymru ond caiff llawer iawn o fwyd heb ei weini ei wastraffu;
    - mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu cymhorthdal o £106,000 y flwyddyn ar gyfer prydau bwyd nad ydynt i gleifion.

14. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad hwn.

**Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Caffael** | | |
| Caiff bwyd ei gaffael gan gyflenwyr cymeradwy, yn unol â'r trefniadau a nodir yn Strategaeth Gaffael y GIG ar gyfer Cymru Gyfan | ✓ | Mae trefniadau caffael yr Ymddiriedolaeth ar gyfer arlwyo yn defnyddio contractau Cyflenwadau Iechyd Cymru (WHS), a chontractau Cadwyn Gyflenwi Cymru Gyfan a'r GIG.<br><br>Caiff cynhyrchion bwyd eu prynu oddi wrth gyflenwyr cymeradwy, fel CPU. Mae CPU yn trefnu bod Support, Training and Services (STS), cwmni sy'n arbenigo mewn archwilio diogelwch bwyd, yn craffu ar ei threfniadau diogelwch bwyd. Llwyddodd CPU i gadw ei hardystiad diogelwch bwyd yn dilyn archwiliad gan STS ym mis Ebrill 2010. Ar hyn o bryd, rhaid i bob cwmni sy'n cyflenwi cynhyrchion arlwyo i Ganolfan Ganser Felindre gael ei achredu gan STS a rhaid iddo fod yn un o gyflenwyr cymeradwy'r GIG.<br><br>Caiff cynhyrchion nad ydynt yn rhan o gontractau'r GIG eu prynu oddi wrth gyflenwyr cymeradwy ag achrediadau diogelwch bwyd priodol, yn gytûn ag adran gaffael yr Ymddiriedolaeth.<br><br>Mae'r rheolwr arlwyo yn cynrychioli'r Ymddiriedolaeth yn Grŵp Nwyddau Cymru Gyfan er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cael gwerth am arian o gontractau bwyd a negodir ar lefel Cymru gyfan. |
| Mae trefniadau caffael cynaliadwy ar waith | ✓ | Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi llunio ei pholisi caffael cynaliadwy ei hun, ond mae contractau Cymru Gyfan a WHS yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad. |
| Mae trefniadau caffael yn ei gwneud yn bosibl i fwydlenni gael eu cynllunio | ✓ | Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn ei harcheb gan CPU ddwywaith yr wythnos sy'n ei gwneud yn bosibl i fwydlenni gael eu cynllunio ychydig ddiwrnodau ymlaen llaw. Mae archeb yr Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar alw hanesyddol am gynhyrchion coginio-rhewi unigol. |
| **Cynhyrchu** | | |
| Mae cleifion yn archebu prydau bwyd llai na 24 awr ymlaen llaw | ✓ | Mae cleifion yn archebu eu prydau bwyd rhyw ddwy neu dair awr cyn amser bwyd. Mae staff arlwyo ar wardiau yn cymryd archebion y cleifion, a ddewiswyd o'r fwydlen ar gyfer y diwrnod hwnnw, ac yn ailgoginio bwyd i ateb y galw disgwyliedig. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Cynhyrchu** | | |
| Defnyddir bwydlenni safonol wedi'u costio i sicrhau cysondeb o ran ansawdd a chost | ✓ | Mae CPU yn defnyddio'r un ryseitiau safonol wedi'u costio ar gyfer ei 'chwsmeriaid' i gyd ac mae label ar bob cynnyrch sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:<br>• enw'r cynnyrch;<br>• y dyddiad cynhyrchu a'r dyddiad olaf ar gyfer ei ddefnyddio;<br>• cynhwysion a nodiadau arbennig eraill fel 'may contain nuts or seeds';<br>• nifer y prydau;<br>• cyfarwyddiadau coginio. |
| Defnyddir ryseitiau sydd wedi'u gwerthuso ar sail maeth | ✓ | Un o'r meini prawf a ddefnyddir wrth dendro am wasanaethau arlwyo yw'r angen i ddangos bod prydau bwyd wedi'u dadansoddi ar sail maeth ac y byddant yn diwallu anghenion maethol cleifion. Mae'r ryseitiau a ddefnyddir gan CPU wedi'u hasesu ar sail maeth. |
| Mae rheolaethau ar waith i reoli maint prydau a darperir hyfforddiant arnynt | ✓/✗ | Mae systemau sefydledig ar waith i reoli maint prydau, sy'n seiliedig ar faint pecynnau bwyd ffoil. Mae nifer y prydau fesul pecyn ffoil yn amrywio rhwng cleifion a'r bwyty staff/ymwelwyr.<br>Fodd bynnag, canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• roedd tri o'r wyth claf bob amser yn gallu dewis maint eu pryd ond dywedodd tri chlaf nad oeddent byth yn gallu dewis maint eu pryd neu mai anaml y byddent yn gallu gwneud hynny a dywedodd un claf bod y *'prydau'n dda ac yn diwallu fy anghenion bob amser'*;<br>• roedd pump o'r wyth claf yn cael digon i'w fwyta ond roedd y gweddill yn cael gormod. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Diogelwch bwyd** | | |
| Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod bwyd yn ddiogel (ee, profion tymheredd bwyd) | ✓ | Mae trefniadau cadarn ar waith drwy gydol y broses ailgoginio bwyd i sicrhau bod y tymereddau'n gywir a chaiff offer procio bwyd ei galibreiddio'n rheolaidd.<br><br>Mae staff arlwyo ar wardiau hefyd yn monitro ac yn cofnodi tymheredd pob oergell a rhewgell ar eu ward deirgwaith y dydd. Gwelwyd tystiolaeth i ddangos y caiff y tymheredd ei ailbrofi o fewn 30 munud os na lwyddwyd i gyrraedd y tymheredd cywir neu os na chaiff y tymheredd cywir ei gynnal. Mae staff arlwyo ar wardiau hefyd yn monitro'r 'dyddiadau defnyddio erbyn' ar fwydydd a gedwir mewn oergelloedd ar wardiau.<br><br>Caiff cleifion a'u perthnasau eu hannog i beidio â dod â'u bwyd eu hunain gyda hwy i'r ysbyty er mwyn cynnal diogelwch bwyd. Fodd bynnag, bydd staff arlwyo ar wardiau yn cofnodi unrhyw eitemau bwyd sy'n dod i mewn i'r ysbyty ar gyfer cleifion ar ffurflen fonitro ar wahân. Cyn iddo gael ei storio, rhoddir label ar y bwyd sy'n nodi enw'r claf a'r dyddiad y daethpwyd â'r eitem i'r ysbyty. Fodd bynnag, ni fydd staff arlwyo yn paratoi nac yn aildwymo unrhyw fwyd y mae cleifion neu'u perthnasau yn dod ag ef i mewn gyda hwy i'r ysbyty.<br><br>Mae trefniadau diogelwch bwyd eraill yn cynnwys y canlynol:<br>• caiff ceginau wardiau lle caiff bwyd cleifion ei ailgoginio neu'i baratoi i'w weini eu glanhau bob dydd;<br>• ymweld â safleoedd cyflenwyr bwyd a chael sicrwydd bod prosesau a gweithdrefnau'r cyflenwyr yn ddiogel;<br>• cyflwyno cynhyrchion bwyd uchel eu risg ar gyfer profion microbiolegol. |
| Mae polisi Pwyntiau Rheoli Critigol a Dadansoddi Peryglon (HACCP) ar waith | ✓ | Mae systemau HACCP ar waith ac fe'u diwygiwyd yn unol ag argymhellion gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Diogelwch bwyd** | | |
| Caiff cyfleusterau arlwyo eu harchwilio'n rheolaidd gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd lleol a chymerir camau i ymateb i'w hargymhellion | ✓ | Mae swyddogion iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol (Cyngor Caerdydd) yn cynnal archwiliadau yn yr Ymddiriedolaeth fel mater o drefn. Ni chyhoeddwyd unrhyw hysbysiadau tramgwyddo o bwys yn ystod ymweliad diwethaf swyddogion iechyd yr amgylchedd ym mis Chwefror 2010.<br>Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gymwys i gael Dyfarniad Hylendid Bwyd Arian oherwydd y safonau uchel a welwyd yn ystod yr archwiliad.<br>Mae staff arlwyo yn cymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i gydymffurfio ag archwiliadau ar unwaith ond dywedwyd eu bod wedi cymryd mwy o amser yn y gorffennol i fynd i'r afael â chamau llai brys pan oedd angen i adrannau eraill, fel yr adran ystadau, eu cwblhau. |
| Mae system arlwyo gyfrifiadurol ar waith i helpu i reoli a monitro'r gwasanaeth | ✓/✗ | Dibynnir yn fawr ar systemau papur ond defnyddir taenlenni Excel i fonitro cyllidebau, gwariant a gwastraff. Mae llawer o'r dogfennau papur yn ategu'r HACCP. Mae'r rheolwr arlwyo wrthi'n ystyried ffyrdd o ddibynnu llai ar systemau papur gan sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth berthnasol. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Rheoli costau** | | |
| Mae cost y gwasanaeth arlwyo yn hysbys a chaiff ei monitro | ✓ | Caiff costau gwasanaethau cleifion mewnol a chostau gwasanaethau nad ydynt i gleifion (sef bwyty Parkside i staff ac ymwelwyr yn bennaf) eu nodi ar wahân a chânt eu cysoni yn erbyn llinellau cyllideb ar wahân. Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro cyllideb, gwariant a'r lefelau incwm a gynhyrchir gan y gwasanaeth arlwyo'n agos er mwyn mantoli'r gyllideb. Trafodir trefniadau caffael, y rhaniad rhwng cyflenwadau i gleifion a rhai nad ydynt i gleifion a newidiadau yn strwythur prisio gwasanaethau nad ydynt i gleifion gyda thîm cyllid yr Ymddiriedolaeth wrth adolygu cyllidebau a gwariant. Y llynedd, cymerodd yr Ymddiriedolaeth gamau i arbed arian drwy gau bwyty Parkside deirawr ynghynt bob dydd am fod y galw'n isel; 18 mis yn ôl, fe'i caewyd dros y penwythnosau.<br><br>£603,000 oedd cost y gwasanaethau arlwyo yn 2008-09 gyda gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cyfrif am dros hanner (£335,000) y gwariant. Llwyddodd y gwasanaeth arlwyo i wneud dros £162,000 o incwm yn 2008-09 gan wrthbwyso cyfanswm y gost i roi cost net fesul diwrnod claf o £8.06, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd (£11.08) ledled Cymru.<br><br>£10.04 oedd cost gyfartalog gwasanaethau arlwyo i gleifion mewn ysbytai fesul diwrnod claf yn 2008-09 a gwelwyd y ffigur isaf yn Felindre (£6.12). Mae gwahaniaethau yn y rhaniad rhwng costau staff a chyflenwadau ar gyfer gwasanaethau arlwyo i gleifion yn yr Ymddiriedolaeth o gymharu ag ysbytai eraill, sy'n adlewyrchu'r trefniadau contractio allanol sydd ar waith ar gyfer prydau bwyd cleifion. Roedd costau staff yn cyfrif am 80 y cant o'r gwariant a chyflenwadau yn cyfrif am 19 y cant; y ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan oedd 64 y cant a 32 y cant yn y drefn honno. Y costau cyflenwadau fesul diwrnod claf oedd yr isaf (£1.15) yng Nghymru ac roeddent yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (£3.17). Mae'n debyg bod y gwahaniaethau mewn cost yn adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer defnyddio contractwyr allanol i ddarparu cynhyrchion coginio-rhewi. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Rheoli costau** | | |
| Ceir dull gweithredu y cytunwyd arno o ran cymorthdaliadau / cyfraniadau gan wasanaethau nad ydynt i gleifion | ✘ | Mae'r Ymddiriedolaeth yn argyhoeddedig bod rhaid i wasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion fantoli'r gyllideb o fewn y ddwy flynedd nesaf ac mae'n cymryd camau i geisio lleihau lefel y cymhorthdal ar gyfer 2010-11 a'i leihau 100 y cant erbyn 2011-12. Er bod y gwasanaeth arlwyo yn gwneud cryn dipyn o incwm nid oedd yn gwneud digon i adennill mwy na 60 y cant o gyfanswm costau'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt i gleifion. Darparodd yr Ymddiriedolaeth gymhorthdal o £106,000 ar gyfer prydau bwyd nad oeddent i gleifion yn 2008-09.<br><br>Ledled Cymru, dim ond un ysbyty (Ysbyty Brenhinol Gwent) oedd wedi gallu adennill holl gostau ei wasanaethau arlwyo nad oeddent i gleifion a gwneud elw. Mae'n debygol o fod yn anos yn y dyfodol i greu lefel yr incwm sydd ei hangen i fantoli'r gyllideb o gofio'r hinsawdd economaidd bresennol a thoriadau pellach mewn refeniw o werthiannau peiriannau bwyd a diod. |
| Mae polisi prisio ar waith ar gyfer prydau bwyd nad ydynt i gleifion | ✓ | Defnyddir strwythur prisio gwahanol ym mwyty Parkside sy'n ychwanegu 35 y cant at y prisiau a delir gan ymwelwyr. Mewn ysbytai eraill, ychwanegwyd hyd at 50 y cant at y prisiau a delir gan ymwelwyr. |
| Mae systemau archebu effeithiol a hyblyg ar waith rhwng y wardiau a'r adran arlwyo | ✓ | Mae staff arlwyo ar wardiau yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad ar y cyd i wneud penderfyniadau ynghylch y fwydlen. Er enghraifft, ar adeg ein hymweliad â'r ward Llawr Cyntaf, dim ond dau o'r saith claf oedd am fwyta pryd cynnes. Felly yn hytrach nag ailgoginio prydau bwyd ar y ward, aeth y cynorthwy-ydd arlwyo ar y ward i ôl prydau bwyd cynnes i'r cleifion hyn o fwyty Parkside. |

<table>
<tr><th>Arfer disgwyliedig</th><th>Ar waith?</th><th>Rhagor o wybodaeth</th></tr>
<tr><td colspan="3">Rheoli costau</td></tr>
<tr><td>Caiff gwastraff ar wardiau ei fonitro (prydau bwyd heb eu gweini a gwastraff o blatiau)</td><td>✓/✗</td><td>
Mae staff arlwyo yn monitro faint o brydau heb eu gweini a gaiff eu gwastraffu ar ddiwedd pob gwasanaeth pryd bwyd. Un diwrnod bob mis, cyfrifir cost ddyddiol pob pryd sydd heb ei weini amser cinio a swper. Amrywiai gwastraff misol rhwng 11 y cant a 21 y cant ac amrywiai'r gost ddyddiol o ran gwastraff o £9.66 i £19.40. Un deg pedwar y cant oedd lefel y gwastraff cyfartalog yn 2009-10 gyda chost gyfartalog o £14.81 y diwrnod. O ran cyflenwadau, mae hyn yn cyfateb i £5,800 y flwyddyn (neu naw y cant o'r gwariant ar gyflenwadau).
Mae'r tabl isod yn dangos y lefelau gwastraff a welwyd o ran prydau na chafodd eu gweini amser cinio ar Ward y Dywysoges Margaret (PMW) a'r Uned Gofal a Gynorthwyir (ASU). Ar y cyfan, gwelwyd bod cyfran uchel (38 y cant) o brydau na chafodd eu gweini, er i staff arlwyo ar y wardiau gymryd archebion cleifion ychydig oriau cyn amser bwyd. Mewn ysbytai eraill yng Nghymru yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad, roedd lefelau gwastraff o ran prydau heb eu gweini yn amrywio o naw y cant i 32 y cant. Efallai bod rhywfaint o'r gwastraff yn digwydd yn sgîl newid sydyn yn awydd bwyd cleifion oherwydd eu cyflwr neu driniaeth.
Gwastraff bwyd heb ei weini
<table>
<tr><th>Wardiau</th><th>Cyfanswm y prydau a ailgoginiwyd (cig a llysiau)</th><th>Prydau heb eu gweini</th><th>Gwastraff bwyd heb ei weini</th></tr>
<tr><td>PMW</td><td>64</td><td>13</td><td>20%</td></tr>
<tr><td>ASU</td><td>45</td><td>28</td><td>62%</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>109</td><td>41</td><td>38%</td></tr>
</table>
Adolygwyd cofnodion gwastraff bwyd heb ei weini'r adrannau arlwyo eu hunain ar gyfer 2009-10 a gwelwyd bod y cyfraddau gwastraff dyddiol ar PMW ac ASU yn debyg i'r gyfradd gyffredinol a gofnodwyd gennym. Dangosodd adolygiad o gyfraddau gwastraff dyddiol y wardiau hyn bod gormod o brydau'n cael eu hailgoginio weithiau, er enghraifft, ailgoginio wyth pryd er mwyn gweini un.
</td></tr>
<tr><td>Caiff gwastraff bwyd yn yr ystafell fwyta ei fonitro</td><td>✓</td><td>Mae staff arlwyo yn monitro gwastraff bwyd heb ei weini ym mwyty Parkside ac er bod lefelau gwastraff yn isel yn ôl y sôn, ni wnaethom ddilysu'r honiadau hyn fel rhan o'r archwiliad hwn.</td></tr>
</table>

## Dosbarthu bwyd i gleifion

15. Mae cleifion yn cael prydau bwyd mewn cyflwr da ond mae angen gwella trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng staff nyrsio ac arlwyo. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- caiff cleifion eu helpu i baratoi ar gyfer eu prydau bwyd a rhoddir cyfle iddynt olchi eu dwylo cyn bwyta;
- caiff y bwyd ei weini'n raenus ac mewn cyflwr da ac mae cleifion yn cael eu prydau bwyd yn gyflym ac yn effeithlon;
- nid yw'r trefniadau i rannu gwybodaeth am anghenion deietegol cleifion bob amser yn effeithiol.

16. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad hwn.

**Dosbarthu bwyd i'r claf**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth prydau bwyd** | | |
| Mae bwyd yn cyrraedd y ward ar yr adeg gywir | ✓ | Mae gwasanaethau prydau bwyd yn dechrau'n brydlon. |
| Mae bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da (ee, tymheredd cywir) | ✓ | Roedd staff arlwyo ar wardiau yn cadw cofnodion o dymheredd pob cynnyrch bwyd a gaiff ei ailgoginio, ei oeri neu ei baratoi ym Mwyty Parkside ar gyfer cleifion. Wrth arsylwi mewn wardiau, canfuwyd bod tymereddau uwchlaw 80°C ar adeg gweini'r bwyd.<br>Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• dywedodd pump o'r wyth claf wrthym fod y bwyd bob amser yn cael ei weini ar y tymheredd y byddent yn ei ddisgwyl; ledled Cymru, dywedodd ychydig dros hanner (53 y cant) y cleifion bod y bwyd bob amser yn cael ei weini ar y tymheredd y byddent yn ei ddisgwyl. |
| Caiff bwyd ei ddosbarthu i'r claf yn gyflym ac yn effeithlon | ✓ | Roedd y gwasanaethau prydau bwyd yn gyflym ac yn effeithlon gydag amseroedd gweini yn amrywio o 10 i 25 munud. |
| Mae staff sy'n gweini bwyd wedi cael hyfforddiant ar gyflwyno bwyd | ✓ | Mae staff arlwyo ar wardiau yn cael hyfforddiant ar gyflwyno bwyd a gwelwyd effaith yr hyfforddiant hwn yn ystod amseroedd bwyd. |
| Mae staff sy'n gweini bwyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd | ✓ | Mae pob aelod o staff arlwyo yn cael hyfforddiant hylendid bwyd a gwelwyd staff arlwyo ar wardiau yn dilyn arferion hylendid bwyd diogel yn ystod amseroedd bwyd drwy olchi eu dwylo a gwisgo ffedogau a menig wrth drin bwyd yn ystod y gwasanaeth prydau. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth prydau bwyd** | | |
| Mae staff pwrpasol (cynorthwywyr, staff cymhennu neu arlwywyr ar wardiau) yn bresennol i helpu i weini'r prydau bwyd ac maent yn gyfarwydd â phrosesau i ddiwallu anghenion maethol cleifion | ✓ | Mae staff arlwyo ar wardiau, sy'n ailgoginio'r bwyd, hefyd yn gweini'r prydau bwyd i'r cleifion. Dywedodd un claf a ymatebodd i'n harolwg bod y staff arlwyo 'bob amser yn ddymunol ac yn barod i helpu'.<br><br>Mae'r adran ddeieteg yn gweithio'n agos gyda staff arlwyo ar wardiau i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o faeth a phwysigrwydd gwahanol ddeietau therapiwtig neu ddeietau ansawdd wedi'i addasu. Mae Llawlyfr Arlwyo, a luniwyd gan staff deietegol, yn rhoi gwybodaeth i staff arlwyo am bwysigrwydd maeth, mathau o ddeietau therapiwtig ac atchwanegiadau maethol a rôl staff arlwyo ar wardiau o ran hyrwyddo maeth da.<br><br>Ar adeg ein harchwiliad, roedd staff deietegol yn datblygu cwrs hyfforddi ar gyfer staff arlwyo a oedd yn cynnwys sesiynau ar fwyta'n iach, deietau therapiwtig, atchwanegiadau maethol drwy'r geg a deietau ansawdd wedi'i addasu. |
| **Profiad cleifion** | | |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael y pryd cywir | ✓/✗ | Nid yw staff nyrsio fel mater o drefn yn llunio cynlluniau gwelyau sy'n nodi anghenion deietegol pob claf er mwyn helpu staff arlwyo pan fyddant yn cymryd archebion bwyd a diod cleifion. Heb gynllun gwelyau o'r fath, mae staff arlwyo ar wardiau yn dibynnu ar staff nyrsio i roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i anghenion deietegol cleifion neu'r angen i gymryd rhagofalon arbennig wrth weini bwyd i gleifion. Yn 2008-09, nododd dadansoddiad yr Ymddiriedolaeth ei hun o'i chryfderau a'i gwendidau mewn perthynas â Safon Gofal Iechyd 9 nad oedd digon o gyfathrebu rhwng staff nyrsio ynghylch cleifion a dderbynnir i wardiau ag anghenion deietegol arbennig. Roedd yn amlwg ar adeg ein hymweliad bod angen cryfhau rôl nyrsys yn y broses hon; am nad oedd cynllun gwelyau ar gael nid oedd staff arlwyo yn cymryd y rhagofalon arferol wrth baratoi a gweini bwyd i glaf â niwtropenia.<br><br>Roedd trefniadau gwahanol ar waith ar y wardiau i dynnu sylw'n gyflym at gleifion ag anghenion deietegol arbennig neu gleifion yr oedd angen cymorth arnynt. Ar y ward Llawr Cyntaf, mae staff nyrsio yn rhoi arwydd uwchben gwely claf i ddangos bod y claf yn dilyn deiet arbennig ac ar ward ASU maent yn cyflwyno system gyfathrebu'n seiliedig ar fwrdd gwyn, sy'n cynnwys gwybodaeth am y math o ddeiet, er enghraifft piwrî.<br><br>Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br><br>• dywedodd chwech o'r wyth claf eu bod bob amser |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| | | yn cael y pryd a archebwyd ganddynt a dywedodd dau eu bod yn ei gael gan amlaf; ledled Cymru dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a ymatebodd i'n harolwg eu bod bob amser y cael y pryd a archebwyd ganddynt. |
| Caiff yr amgylchedd cleifion ei baratoi i dderbyn y prydau bwyd | ✓ | Yn y tair ward, cafodd y rhan fwyaf o'r byrddau wrth ochr y gwelyau eu clirio cyn amseroedd bwyd, gan gynnwys unrhyw wastraff clinigol posibl, ond cawsom wybod nad oeddent yn cael eu clirio'n gyson. Os yw staff arlwyo ar wardiau yn cael trafferth dod o hyd i le i roi pryd bwyd y claf ar y bwrdd, byddant yn gofyn i'r claf symud ei eiddo neu'n rhoi gwybod i staff nyrsio yn achos gwastraff clinigol.<br>Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• dywedodd saith o'r wyth claf fod y man lle roeddent yn bwyta eu bwyd bob amser yn lân a dywedodd un ei fod yn lân gan amlaf.<br>Er bod yr Ymddiriedolaeth yn annog cleifion i fwyta mewn ardaloedd bwyta cyffredin er mwyn hyrwyddo'r agweddau cymdeithasol ar fwyta a'u helpu i fwyta mwy, ni welwyd unrhyw glaf yn defnyddio'r ardaloedd bwyta hyn gan fwyta wrth ochr eu gwely yn lle hynny. |
| Mae cleifion yn cael cyfle i baratoi ar gyfer eu prydau bwyd drwy olchi eu dwylo cyn bwyta a gwneud eu hunain yn gyfforddus i fwyta (yn y gwely neu y tu allan i'r gwely) | ✓ | Roedd staff arlwyo ar wardiau yn rhoi hancesi glanhau dwylo unigol i gleifion fel rhan o'r gwasanaeth prydau ac roedd staff nyrsio yn helpu'r rhai yr oedd angen cymorth arnynt i wneud eu hunain yn gyfforddus.<br>Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• dywedodd yr wyth claf wrthym eu bod bob amser yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd; ledled Cymru dim ond dwy ran o dair o gleifion oedd bob amser yn cael cyfle i olchi eu dwylo;<br>• dywedodd tri chlaf bod angen cymorth arnynt i wneud eu hunain yn gyfforddus cyn bwyta a dywedodd dau ohonynt eu bod bob amser yn cael y cymorth roedd ei angen arnynt a dywedodd y claf arall ei fod yn ei gael gan amlaf. |

## Diwallu anghenion maethol cleifion a'u helpu i wella

17. Mae gwasanaeth arlwyo'r Ymddiriedolaeth yn ddigon hyblyg i sicrhau bod cleifion yn cael y maeth sydd ei angen arnynt ond mae angen cydymffurfio'n well â'r llwybr maethol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae bwydlenni yn darparu dewis eang o fwyd ac ar y cyfan, mae cleifion yn fodlon ar y dewis sydd ar gael;
- mae trefniadau diogelu amser bwyd yn gweithio'n dda ar y cyfan;
- ni chaiff pob claf ei sgrinio bob amser pan gaiff ei dderbyn i'r ysbyty er mwyn canfod unrhyw risg o ran maeth;

- ni chaiff rhai cleifion sy'n wynebu risg uchel o ddiffyg maeth eu hatgyfeirio i gael asesiad deietegol;
- ni cheir dull cyson o weithredu mewn perthynas â chynlluniau gofal maethol.

18. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad hwn.

**Diwallu anghenion maethol cleifion a'u helpu i wella**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Sgrinio maeth a chynllunio gofal** | | |
| O fewn 24 awr iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty, caiff cleifion eu pwyso a'u sgrinio at ddibenion maeth, gan ddefnyddio adnodd sgrinio maeth wedi'i ddilysu a lle y bo'n briodol, atgyfeirir cleifion i ddeietegydd | ✓/✗ | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio adnodd sgrinio maeth Moreland, ers iddo gael ei ddatblygu'n fewnol ynghanol y 1990au. Mae'r adran ddeieteg yn asesu'n rheolaidd a gaiff adnodd sgrinio Moreland ei ddefnyddio ar gyfer pob claf mewnol. Yn ôl canfyddiadau ei harchwiliad diweddar:<br>• roedd 20 allan o 22 o gleifion wedi'u sgrinio;<br>• roedd 16 allan o 22 o gleifion wedi'u pwyso;<br>• cofnodwyd taldra 14 allan o 22 o gleifion;<br>• aseswyd bod 11 o'r 20 o gleifion a sgriniwyd yn wynebu risg uchel, hynny yw roedd ganddynt sgôr Moreland o 21 neu fwy; o blith y cleifion hyn, dim ond saith ohonynt a gafodd eu hatgyfeirio i'r deietegydd.<br>Mae canfyddiadau ein hadolygiad o nodiadau achos yn adlewyrchu'r canfyddiadau uchod yn gyffredinol:<br>• cafodd pob un o'r 13 o gleifion eu sgrinio pan gawsant eu derbyn i'r ysbyty gan ddefnyddio adnodd sgrinio maeth Moreland;<br>• cafodd naw o'r 13 o gleifion eu pwyso o fewn 24 awr i gael eu derbyn, neu'n fuan wedi hynny; ni chafodd dau o'r cleifion eu pwyso am fod eu cyflwr yn golygu nad oedd modd gwneud hynny ond cafodd eraill eu pwyso'n ddyddiol fel rhan o'u gofal nyrsio a meddygol;<br>• cofnodwyd taldra wyth allan o'r 13 o gleifion;<br>• nid atgyfeiriwyd un o'r cleifion i gael asesiad deietegol er i'r ymarfer sgrinio ddangos ei fod yn wynebu risg uchel h.y. sgôr Moreland o fwy na 21.<br>Yn dilyn archwiliad sylfaenol *Hanfodion Gofal*, cyflwynodd rheolwr y ward Llawr Cyntaf system o archwiliadau wythnosol i sicrhau bod cleifion yn cael eu sgrinio'n briodol pan gânt eu derbyn i'r ward. Caiff bylchau mewn ymarferion sgrinio maeth, er enghraifft, eu nodi'n gyflym ac ymchwilir i'r rhesymau dros beidio â sgrinio cleifion.<br>Ar adeg ein harchwiliad, roedd staff deietegol yn profi dibynadwyedd adnodd Moreland am nad oedd wedi'i ddilysu'n flaenorol. Profwyd ei ddibynadwyedd drwy:<br>• gymharu adnodd Moreland yn erbyn yr Asesiad Cyffredinol Gwrthrychol a Lunnir gan Gleifion (PG-SGA), sef adnodd asesu maeth a ddefnyddir ar |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| | | gyfer cleifion canser; roedd cryn dipyn o gydberthynas rhwng adnodd Moreland a PG-SGA; |
| O fewn 24 awr iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty, caiff cleifion eu pwyso a'u sgrinio at ddibenion maeth, gan ddefnyddio adnodd sgrinio maeth wedi'i ddilysu a lle y bo'n briodol, atgyfeirir cleifion i ddeietegydd | | • cymharu faint o gytundeb oedd rhwng nyrsys a deietegwyr (dibynadwyedd rhwng sgorwyr) wrth sgorio risg o ran maeth gan ddefnyddio adnodd Moreland; dywedwyd bod nyrsys a deietegwyr yn weddol gytûn gyda staff nyrsio yn barnu bod cyfran lai o gleifion mewn perygl; gwelwyd bod llawer mwy o gytundeb rhwng deietegwyr.<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried darparu hyfforddiant gloywi ar adnodd sgrinio Moreland, yn enwedig ar ôl i staff nyrsio ddweud wrthym mai ychydig iawn o addysg barhaus neu hyfforddiant ar faterion maeth a ddarperir, os o gwbl.<br>Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• dywedodd chwech o'r wyth claf fod staff yn yr ysbyty wedi siarad â hwy am eu hanghenion deietegol o gymharu â 41 y cant ledled Cymru;<br>• dywedodd chwech o'r wyth claf iddynt gael eu pwyso yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty o gymharu â 66 y cant o gleifion ledled Cymru;<br>• dywedodd pedwar o'r wyth claf i'w taldra gael ei fesur o gymharu â 31 y cant ledled Cymru.<br>Roedd gwahaniaeth barn ymhlith staff nyrsio ynghylch pa sgôr ddylai arwain at atgyfeirio claf i staff deietegol gyda rhai aelodau o staff yn dweud y byddai cleifion â sgôr o 16 neu 19 yn cael eu hatgyfeirio.<br>Mae rowndiau ward amlddisgyblaethol hefyd yn darparu cyfleoedd i wneud atgyfeiriadau anffurfiol os nad yw sgôr risg maeth y claf yn ddigon uchel iddo gael ei atgyfeirio'n awtomatig. |
| Caiff cynllun gofal maethol ei baratoi a'i weithredu, yn seiliedig ar sgôr risg maeth y claf | ✘ | Nid oedd dull cyson o weithredu mewn perthynas â chynlluniau gofal maethol. Roedd cynlluniau gofal maethol ar gael ar gyfer pedwar o'r 13 o gleifion y gwnaethom adolygu eu nodiadau achos a chofnodwyd yr hyn roedd chwech o'r cleifion eraill yn ei fwyta gan ddefnyddio siart bwyd Cymru gyfan, waeth beth fo'u sgôr risg. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Sgrinio maeth a chynllunio gofal** | | |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y rhai sy'n gweini prydau bwyd yn ymwybodol o anghenion maethol penodol cleifion | ✓ | Bydd staff deietegol yn rhoi gwybod i staff arlwyo am gleifion sydd ag anghenion deietegol arbennig. Cofnodir anghenion deietegol, fel yr angen i gael byrbryd rhwng prydau bwyd, ar ffurflen ar wahân a gedwir yng nghegin y ward fel y gall staff arlwyo gyfeirio ati.<br><br>Bydd deietegwyr hefyd yn cofnodi atchwanegiadau maethol a gymerir drwy'r geg, y maent wedi'u rhoi ar bresgripsiwn i gleifion, ar y ffurflen hon fel eu bod yn rhan arferol o'r gwasanaeth bwyd a diod a ddarperir gan staff arlwyo.<br><br>Gwelwyd staff arlwyo ar wardiau yn cryfhau cawliau a chwstard yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael digon o galorïau os nad oeddent yn bwyta llawer neu'n gwrthod bwyta pryd cyfan. |
| **Y dewis o fwyd ac argaeledd** | | |
| Mae bwydlenni yn darparu dewis da o fwyd i gleifion | ✓ | Mae'r Ymddiriedolaeth yn newid bwydlenni bob pythefnos ac yn cynnig dau brif ddewis bob amser bwyd yn ogystal â dewis llysieuol.<br>Cynigir dewis ysgafn, fel taten bob, salad, brechdan, ffrwythau ffres a hufen iâ, bob amser bwyd.<br><br>Anogir pob claf i ddewis bwydydd o'r fwydlen ddyddiol ond os oes angen, gellir cael prydau bwyd eraill o fwyty Parkside pan fydd ar agor. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu brecwast wedi'i goginio i gleifion, yn wahanol i ysbytai eraill yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad hwn.<br><br>Cymysg oedd barn y cleifion ar y dewis o fwyd.<br>Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• dywedodd pump o'r wyth claf wrthym fod digon o ddewis ar gael bob amser neu fod digon o ddewis ar gael gan amlaf ond dywedodd dau glaf mai anaml roedd digon o ddewis ar gael;<br>• dywedodd pedwar o'r wyth claf fod y fwydlen bob amser yn cael ei newid yn ddigon aml; ledled Cymru dywedodd un o bob tri chlaf wrthym fod y fwydlen bob amser yn cael ei newid yn ddigon aml. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Y dewis o fwyd ac argaeledd** | | |
| Mae'r fwydlen yn cynnwys dewisiadau ar gyfer cleifion ag anghenion penodol o ran crefydd, diwylliant, ffordd o fyw neu feddyginiaeth | ✓ | Mae'r fwydlen yn darparu dewisiadau i ddiwallu anghenion deietegol penodol cleifion. Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• roedd tri o'r pedwar claf a ddywedodd fod angen iddynt ddilyn deiet arbennig yn cael bwyd a oedd yn addas i'w hanghenion deietegol bob amser ac roedd y pedwerydd yn cael bwyd addas gan amlaf;<br>• dywedodd un o'r wyth claf, yr oedd angen prydau llysieuol arno, fod digon o ddewis ar gael gan amlaf i ddiwallu ei anghenion;<br>• roedd angen deiet sy'n addas i'w daliadau crefyddol ar bedwar o'r wyth claf; roedd tri ohonynt bob amser yn cael digon o ddewis i ddiwallu eu hanghenion ac roedd un claf yn cael digon o ddewis gan amlaf;<br>• roedd angen deiet arbennig ar un o'r wyth claf ar gyfer alergeddau bwyd; dywedodd wrthym fod digon o ddewis ar gael bob amser i ddiwallu ei anghenion. |
| **Help i fwyta** | | |
| Mae trefniadau diogelu amseroedd bwyd ar waith | ✓ | Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo'r egwyddor o 'ddiogelu amseroedd bwyd', er enghraifft caiff ei chynnwys fel rhan o raglenni sefydlu meddygon newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu i ba raddau y cydymffurfir â'r egwyddor o ddiogelu amser bwyd.<br><br>Roedd arwyddion clir i'w gweld a oedd yn datgan na ddylid amharu ar gleifion yn ystod amseroedd bwyd a neilltuir amser ychwanegol i roi cyfnod gorffwys addas iddynt ar ôl y pryd.<br><br>Yn ôl ein harsylwadau, ychydig iawn o gleifion y torrwyd ar eu traws oni bai bod eu cyflwr yn galw am sylw meddygol. Fodd bynnag, roedd y glanhawyr yn dal i weithio ar ddau o goridorau'r ward wrth i'r gwasanaeth prydau bwyd ddechrau.<br><br>Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• dywedodd saith o'r wyth claf nad oedd unrhyw beth byth yn torri ar eu traws yn ystod eu prydau bwyd neu nad oedd hynny'n digwydd yn aml ond dywedodd un claf wrthym fod rhywbeth yn torri ar ei draws yn ystod pob pryd bwyd;<br>• teimlai pump o'r wyth claf eu bod bob amser yn cael digon o amser i orffen eu prydau bwyd.<br>Mae cynrychiolwyr cyswllt cleifion hefyd yn achub ar y cyfle i hyrwyddo'r egwyddor o ddiogelu amser bwyd yn ystod nosweithiau agored a gynhelir ar gyfer cleifion newydd. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| **Help i fwyta** | | |
| Mae cleifion yn cael cymorth i fwyta os oes angen | ✓ | Ar adeg ein hymweliad, nid oedd angen cymorth ar unrhyw un o'r cleifion a arsylwyd gennym ac nid oedd angen cymorth ychwaith ar yr wyth claf a ymatebodd i'n harolwg. Fodd bynnag, gwelwyd bod cleifion yn cael eu hannog i fwyta a gwelwyd bod un claf yn cael ei fonitro i sicrhau ei fod yn ymdopi am fod ei gyflwr yn golygu bod rhaid iddo orwedd ar wastad ei gefn.<br><br>Gwelwyd staff arlwyo ar wardiau yn helpu cleifion i agor pecynnau bwyd a thorri bwyd. Roeddent hefyd yn rhoi gwybod i staff nyrsio os nad oedd cleifion yn bwyta neu'n yfed. |
| Mae cleifion yn gallu cael prydau bwyd eraill neu fyrbrydau y tu allan i amseroedd bwyd | ✓ | Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion mewnol yn cael prydau bwyd eraill os yw eu triniaeth, er enghraifft cemotherapi, yn golygu eu bod yn rhy anhwylus i fwyta yn ystod amseroedd bwyd. Hefyd, mae byrbrydau ar gael rhwng prydau bwyd i gleifion sydd eu heisiau neu y mae eu hangen arnynt. I gleifion sy'n mynd i'r ysbyty i gael triniaeth cleifion allanol, mae staff arlwyo yn cynnig lluniaeth ysgafn a diodydd deirgwaith y dydd.<br><br>Ym mis Mawrth 2010, treialodd yr adrannau arlwyo a deietegol gynllun ar ward ASU i gynnig byrbrydau ychwanegol ganol y prynhawn. Gallai cleifion ddewis o blith byrbrydau ar fwydlen fer a oedd yn cynnwys bwydydd fel pwdin reis, cacennau te a smwddis ffrwythau. Rhoddodd cleifion adborth ynghylch p'un a hoffent gael cynnig byrbrydau fel mater o drefn, yr amser gorau ar gyfer byrbrydau ac awgrymiadau ar gyfer byrbrydau eraill. Dywedodd bron pob un o'r 29 o gleifion a gymerodd ran yn y treial hwn yr hoffent gael cynnig byrbrydau fel mater o drefn ac mai'r amser gorau i gael byrbryd fyddai 7pm. Roedd y fwydlen byrbrydau'n cael ei defnyddio ar adeg ein harchwiliad, ac eithrio smwddis ffrwythau na fyddai'n cael eu darparu hyd nes y byddai cost y byrbryd yn cael ei hasesu'n llawn.<br><br>Canfu ein harolwg cleifion y canlynol:<br>• roedd chwech o'r wyth claf a gollodd bryd bob amser yn gallu cael pryd arall yn ei le a dywedodd dau eu bod fel arfer yn cael pryd arall os oeddent wedi colli pryd;<br>• dywedodd pump o'r wyth claf a ymatebodd i'n harolwg fod byrbrydau bob amser ar gael rhwng amseroedd bwyd;<br>• roedd pump o'r wyth claf bob amser yn hapus ag amseroedd y prydau bwyd. |
| Caiff yr hyn y mae cleifion yn | ✓ | Er na wnaethom archwilio unrhyw siartiau bwyd a diod Cymru gyfan a gwblhawyd, gwelwyd bod staff yn llenwi'r |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| ei fwyta a'i yfed ei fonitro'n rheolaidd gan ddefnyddio Siartiau Cofnodi Bwyd a Hylif Cymru Gyfan | | rhain ar gyfer y cleifion hynny yr oedd eu bwyd yn cael ei gofnodi. Ar PMW anogwyd cleifion i fod yn annibynnol a chadw eu siartiau bwyd a hylif eu hunain o dan oruchwyliaeth fanwl staff nyrsio. |

## Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth

19. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i geisio barn cleifion a'u cynnwys mewn adolygiadau ansawdd, ac mae lefelau boddhad cleifion yn gymharol uchel. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
    - cymerir camau i ofyn am farn cleifion a'u cynnwys mewn adolygiadau ansawdd er mwyn gwella gwasanaethau
    - mae cleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ar y cyfan
20. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad hwn.

**Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Rhagor o wybodaeth |
|---|---|---|
| Mae gweithgareddau rheolaidd i geisio barn cleifion a'u profiadau o wasanaethau arlwyo | ✓ | Mae nifer o systemau ar waith i gasglu adborth gan gleifion:<br>• mae'r gwasanaeth arlwyo yn cynnal arolwg chwarterol o foddhad cleifion, ar y cyd â'r cynrychiolwyr cyswllt cleifion; mae lefelau boddhad cyffredinol yn uchel ar y cyfan ac yn rhagori ar y safon ofynnol a bennwyd gan y gwasanaeth arlwyo;<br>• gofynnir am farn cleifion ar wasanaethau arlwyo fel rhan o'r archwiliad *Hanfodion Gofal* - Safon 9;<br>• cofnodion ffurfiol o gwynion a chanmoliaeth - yn 2009-10, derbyniodd y gwasanaeth arlwyo 32 canmoliaeth gan gleifion neu'u teuluoedd;<br>• mae'r rheolwr arlwyo'n mynd i gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cleifion yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud yn benodol ag arlwyo.<br>Canfu ein harolwg cleifion fod lefelau boddhad cyffredinol â'r bwyd a ddarperir yn uchel;<br>• dywedodd chwech o'r wyth claf fod y bwyd yn blasu'n dda neu'n ardderchog a dywedodd dau fod y bwyd yn blasu'n dderbyniol; fodd bynnag, dywedodd un claf fod y bwyd 'bob amser yn edrych yn dda ond ei fod yn ddi-flas';<br>• dywedodd pob un o'r wyth claf fod y bwyd yn edrych yn dda neu'n ardderchog. |

| | | |
|---|---|---|
| Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu cynrychioli ar grwpiau cynllunio arlwyo | ✓ | Caiff cleifion eu cynrychioli ar y Grŵp Gwella Maeth Cleifion Mewnol. |
| Mae defnyddwyr gwasanaethau yn cymryd rhan mewn adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth | ✓ | Mae cleifion yn cymryd rhan mewn adolygiadau ansawdd drwy sesiynau blasu:<br>• bob mis mae staff arlwyo yn cynnal sesiynau blasu gyda chleifion i asesu blas, ansawdd, tymheredd, ymddangosiad a lliw bwyd ynghyd â pha mor dderbyniol ydyw'n gyffredinol;<br>• mae staff deietegol yn cynnal sesiynau blasu blynyddol ar gyfer atchwanegiadau maeth a gymerir drwy'r geg;<br>• mae cynrychiolwyr cyswllt cleifion wedi cymryd rhan mewn sesiynau blasu cynhyrchion cyn i dendrau gael eu dyfarnu i ddarparu cynhyrchion coginio-rhewi. |
| Mae trefniadau effeithiol a chydgysylltiedig ar waith i ddefnyddio barn cleifion a phrofiadau'r grŵp staff cyfan er mwyn helpu i wella gwasanaethau | ✓ | Cyhoeddir canlyniadau arolygon boddhad cleifion yng Nghylchlythyr Rheolwyr Cyfleusterau'r Ymddiriedolaeth ac fe'u harddangosir yn glir ar hysbysfyrddau ymhob ward hefyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r Grŵp Cyswllt Cleifion i ddod o hyd i ffyrdd o roi adborth mwy uniongyrchol i gleifion.<br>Ni rannwyd canlyniadau archwiliad sylfaenol Hanfodion Gofal (Safon 9) yn ehangach er bod llawer o'r eitemau yn berthnasol i staff arlwyo. Mae'r Grŵp Gwella Maeth Cleifion Mewnol yn mynd i'r afael â hyn drwy alluogi cynrychiolwyr nyrsio i rannu gwybodaeth am faterion yn ehangach. |

21. Ceir dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r arolwg yn Atodiad 3.

## Atodiad 1

# Dull archwilio

Nod yr archwiliad oedd ateb y cwestiwn: 'A yw ysbytai yng Nghymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig?'

Ategwyd y cwestiwn gan yr isgwestiynau canlynol:

- A yw trefniadau cynllunio strategol mewn perthynas ag arlwyo yn effeithiol?
- A yw trefniadau caffael yn effeithiol ac a gaiff bwyd ei gyrchu oddi wrth gyflenwyr diogel?
- A gaiff y broses cynhyrchu bwyd ei rheoli'n dda?
- A oes trefniadau effeithiol ar waith i ddosbarthu bwyd i'r ward, ac i'r claf?
- A yw'r trefniadau mewn wardiau yn helpu i ddiwallu anghenion maethol cleifion ac yn eu helpu i wella?
- A oes trefniadau effeithiol ar waith i ymgynghori â chleifion ynglŷn â'r gwasanaeth arlwyo a dderbynnir ganddynt?

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau archwilio gennym i ateb y cwestiynau hyn. Nodir y gweithgareddau archwilio hyn yn y tabl isod.

**Gweithgareddau archwilio**

| Cwestiynau | Gweithgareddau archwilio |
|---|---|
| 1. Trefniadau cynllunio strategol | Dadansoddi data ariannol<br>Adolygu dogfennaeth<br>Adolygu nodiadau achos<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Cyfweliadau â staff |
| 2. Trefniadau caffael | Arweiniad cam wrth gam drwy'r broses<br>Adolygu dogfennaeth<br>Cyfweliadau â staff |
| 3. Rheoli cynhyrchiant | Arweiniad cam wrth gam drwy'r broses<br>Dadansoddi data ariannol<br>Arsylwi gwastraff - prydau bwyd heb eu gweini a gwastraff ar blatiau<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Cyfweliadau â staff |
| 4. Trefniadau dosbarthu ar wardiau | Arsylwi gwasanaeth prydau<br>Profi blas pryd bwyd<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Cyfweliadau â staff |


| Cwestiynau | Gweithgareddau archwilio |
|---|---|
| 5. Helpu cleifion i wella | Arsylwi gwasanaeth prydau<br>Arsylwi gwastraff - prydau bwyd heb eu gweini a gwastraff ar blatiau<br>Profion blasu<br>Adolygu nodiadau achos<br>Arolwg o brofiadau cleifion<br>Cyfweliadau |
| 6. Ymgysylltu â chleifion | Arolwg o brofiadau cleifion<br>Cyfweliadau |

# Atodiad 2

## Data ariannol

£603,000 oedd cost gwasanaethau arlwyo'r Ymddiriedolaeth yn 2008-09 gyda gwasanaethau arlwyo i gleifion yn cyfrif am dros hanner (£335,000) y gwariant. Gwrthbwyswyd cyfanswm y costau gan incwm o £162,000 o wasanaethau arlwyo nad oeddent i gleifion, sef bwyty'r staff/ymwelwyr a lletygarwch. £441,000 oedd costau net y gwasanaethau arlwyo yn 2008-09 a oedd yn rhoi cost net fesul diwrnod claf o £8.06, ffigur a oedd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (£11.08).


**Arddangosyn 1: Costau net gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai fesul diwrnod claf yn 2008-09**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a data gweithgarwch a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre*

Er bod y gwasanaeth arlwyo wedi cynhyrchu lefel sylweddol o incwm o gymharu â gwariant, nid oedd wedi gwneud digon i adennill mwy na 60 y cant o gyfanswm costau'r gwasanaethau arlwyo nad oeddent i gleifion. Llwyddwyd i dalu costau bwyd, diodydd a nwyddau yn llawn ond nid costau staff. Roedd gan yr Ymddiriedolaeth un o'r diffygion mwyaf o ran yr incwm yr oedd ei angen i fantoli'r gyllideb, o gymharu ag ysbytai eraill (Arddangosyn 2). Fodd bynnag, ledled Cymru, dim ond un ysbyty (Ysbyty Brenhinol Gwent) oedd wedi adennill holl gostau'r gwasanaethau arlwyo nad oeddent i gleifion, a gwneud elw.


**Arddangosyn 2: Canran y gwahaniaeth rhwng incwm a chostau ar gyfer gwasanaethau arlwyo nad oeddent i gleifion yn 2008-09**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a data gweithgarwch a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre*

£10.04 oedd cost gyfartalog gwasanaethau arlwyo i gleifion fesul diwrnod claf mewn ysbytai yn 2008-09, gan amrywio o £6.12 i £15.87 (Arddangosyn 3). Yr Ymddiriedolaeth oedd â'r costau isaf fesul diwrnod claf.


**Arddangosyn 3: Cost gwasanaethau arlwyo i gleifion fesul diwrnod claf yn 2008-09**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a data gweithgarwch a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre*


Ledled Cymru, roedd cyflenwadau yn cyfrif am draean (32 y cant) y gwariant ar wasanaethau arlwyo i gleifion gyda'r gyfran fwyaf (64 y cant) yn cael ei gwario ar gostau staff (Arddangosyn 4). Roedd cyflenwadau'n cyfrif am un rhan o bump (19 y cant) o gostau gwasanaethau arlwyo i gleifion yr Ymddiriedolaeth gyda chostau staff yn cyfrif am y gweddill. Fodd bynnag, roedd amrywiadau sylweddol rhwng ysbytai, nad oedd modd eu priodoli'n hawdd i'r modelau gwasanaeth gwahanol (Arddangosyn 5).

**Arddangosyn 4: Dadansoddiad o gost gwasanaethau arlwyo i gleifion mewn ysbytai yn 2008-09**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a data gweithgarwch a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre*

**Arddangosyn 5: Cymhariaeth o gostau gwasanaethau arlwyo i gleifion fesul diwrnod claf gyda modelau cyflenwi yn 2008-09**




Allwedd


F = Felindre

*WBC – staff arlwyo ar wardiau sy'n gyfrifol am weini prydau bwyd

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a data gweithgarwch a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre*

Yn 2008-09, £3.18 oedd cost gyfartalog cyflenwadau fesul diwrnod claf ledled Cymru, gan amrywio o £1.15 i £5.23 (Arddangosyn 6). Yr Ymddiriedolaeth oedd â'r costau isaf o ran cyflenwadau.

**Arddangosyn 6: Costau cyflenwadau fesul diwrnod claf yn 2008-09**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ariannol a data gweithgarwch a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre*

Atodiad 3

## Profiad cleifion

Fel rhan o'r archwiliad hwn, gwnaethom gynnal arolwg holiadur i gasglu barn cleifion ar y bwyd a gawsant yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Targedwyd cleifion y tair ward i gleifion mewnol lle gwnaethom arsylwi'r gwasanaeth prydau ac adolygu nodiadau achos y cleifion.

Dibynnwyd ar staff y ward i roi holiadur yr arolwg i bob claf, lle y bo'n briodol, ynghyd ag amlen ateb ragdaledig i'w ddychwelyd i Swyddfa Archwilio Cymru. Ar adeg yr archwiliad, gwnaethom gyhoeddi manylion am yr arolwg yn y wasg leol, gan wahodd unrhyw un a oedd wedi bod yn glaf yn ystod y 12 mis diwethaf, neu a oedd wedi gofalu am rywun a fu yn yr ysbyty, i roi eu barn ar y bwyd a gawsant, drwy'r arolwg ar-lein.

Derbyniwyd 694 o ymatebion gan bobl ledled Cymru, a oedd yn gleifion ar adeg ein harchwiliad neu a oedd wedi bod yn gleifion yn ystod y 12 mis diwethaf. O blith y rhain, roedd wyth holiadur yn ymwneud â'r Ymddiriedolaeth. Gellir dadansoddi'r ymatebion mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth fel a ganlyn:

- Llawr Cyntaf - dau ymateb (ar adeg ein hymweliad, roedd saith claf ond nid oedd yn briodol i ni ofyn i ddau ohonynt gwblhau'r arolwg)
- PMW – pedwar ymateb
- ASU – dau ymateb

Mae'r tablau isod yn dangos nifer yr ymatebion i bob cwestiwn. Caiff data cymharol (canran) ar gyfer ymatebion Cymru gyfan ei gynnwys. [Dylid nodi os nad atebwyd rhai cwestiynau bod hynny'n golygu bod nifer yr ymatebion a nodir yn llai na chyfanswm yr holiaduron a ddychwelwyd.]

**Cwestiwn 3: Am ba hyd y gwnaethoch aros yn yr ysbyty?**

| | Llai na diwrnod | 2 - 3 diwrnod | 4 - 7 diwrnod | 8 - 14 diwrnod | Mwy na phythefnos | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 0 | 0 | 4 | 3 | 1 | **8** |
| Cymru | 2% | 15% | 28% | 24% | 32% | **654** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 4: A gawsoch eich pwyso yn ystod eich cyfnod yn yr ysbyty?**

| | Do | Naddo | Ddim yn siŵr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 6 | 2 | 0 | **8** |
| Cymru | 67% | 30% | 3% | **685** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 5: A gafodd eich taldra ei fesur yn ystod eich cyfnod yn yr ysbyty?**

| Ysbytai Cwm Taf | Do | Naddo | Ddim yn siŵr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 4 | 4 | 0 | **8** |
| Cymru | 32% | 59% | 9% | **681** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 6: A wnaeth aelod o staff yr ysbyty siarad â chi am eich anghenion deietegol?**

| | Do | Naddo | Ddim yn siŵr | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 6 | 2 | 0 | **8** |
| Cymru | 41% | 54% | 5% | **675** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 7: A gawsoch fwyd a oedd yn addas i'ch anghenion deietegol?**

| | Nid oedd angen deiet arbennig arnaf | Do, bob amser | Do, gan amlaf | Anaml | Byth | Ddim yn gwybod | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 3 | 3 | 1 | 0 | 0 | 1 | **8** |
| Cymru | 52% | 23% | 12% | 4% | 5% | 3% | **679** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 8a: Allech chi ddeall y fwydlen?**

| | Gallwn, bob amser | Gallwn, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 2 | 0 | 0 | **7** |
| Cymru | 76% | 19% | 1% | 3% | **631** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 8b: Wyddech chi beth oedd y dewisiadau bwyd ar y fwydlen?**

| | Gwyddwn, bob amser | Gwyddwn, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 4 | 2 | 0 | 0 | **6** |
| Cymru | 74% | 21% | 3% | 2% | **609** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 8c: A oedd digon o ddewis ar y fwydlen?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 2 | 3 | 2 | 0 | **7** |
| Cymru | 46% | 27% | 18% | 9% | **621** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 8ch: A oeddech yn gallu dewis faint o fwyd a gawsoch?**

| | Oeddwn, bob amser | Oeddwn, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 3 | 1 | 1 | 2 | **7** |
| Cymru | 46% | 19% | 8% | 27% | **623** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 9: A oedd y fwydlen yn cael ei newid yn ddigon aml?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nid oeddwn yn yr ysbyty am ddigon hir i allu dweud | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 4 | 2 | 0 | 0 | 2 | **8** |
| Cymru | 29% | 39% | 12% | 5% | 15% | **670** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 10: A oedd digon o ddewisiadau ar y fwydlen i gyd-fynd â'ch daliadau crefyddol?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nid oes gennyf ddaliadau sy'n gofyn am ddeiet arbennig | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 | **8** |
| Cymru | 24% | 6% | 1% | 3% | 65% | **658** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 11: Os ydych yn llysieuwr neu'n figan, a oedd digon o ddewis i ddiwallu eich anghenion?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nid wyf yn llysieuwr nac yn figan | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 0 | 1 | 0 | 0 | 7 | **8** |
| Cymru | 4% | 4% | 3% | 3% | 86% | **628** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 12: Os oes gennych alergedd bwyd, a oedd digon o ddewis i ddiwallu eich anghenion?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nid oes gennyf alergedd bwyd | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 1 | 0 | 0 | 0 | 7 | **8** |
| Cymru | 7% | 5% | 2% | 2% | 84% | **630** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 13: Sut y gwnaethoch ddewis pa brydau bwyd i'w bwyta?**

| | Gwnes i lenwi ffurflen | Dewisais y bwyd o droli | Dywedais wrth aelod o staff | Dewisodd aelod o'r teulu ar fy rhan | Nid oedd dewis | Arall | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 0 | 1 | 7 | 0 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 43% | 15% | 35% | 2% | 4% | 2% | **676** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

### Cwestiwn 14: Pryd y gwnaethoch ddewis pa brydau i'w bwyta?

| | Cyn diwrnod y pryd bwyd | Ar ddiwrnod y pryd bwyd | O'r troli | Nid oedd dewis | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 1 | 7 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 49% | 30% | 17% | 4% | **671** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

### Cwestiwn 15: A oeddech yn cael cyfle i olchi eich dwylo cyn i chi fwyta?

| | Oeddwn, bob amser | Oeddwn, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 8 | 0 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 65% | 19% | 8% | 8% | **685** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

### Cwestiwn 16: A oedd aelod o staff yn eich helpu i wneud eich hun yn gyfforddus cyn i chi fwyta?

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nid oedd angen help arnaf i wneud fy hun yn gyfforddus | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 2 | 1 | 0 | 0 | 5 | **8** |
| Cymru | 28% | 19% | 7% | 9% | 36% | **677** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

### Cwestiwn 17: Ble y gwnaethoch fwyta'r rhan fwyaf o'ch prydau bwyd?

| | Mewn cadair wrth ymyl fy ngwely | Mewn ardal fwyta gyffredin | Yn y gwely | Arall | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 0 | 3 | 0 | **8** |
| Cymru | 68% | 3% | 28% | 1% | **689** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 18: A oedd yr ardal ble y gwnaethoch fwyta yn lân ac yn daclus?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Weithiau | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 7 | 1 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 70% | 25% | 5% | 1% | **687** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 19: Os oedd angen cymhorthion bwyta arnoch, a gawsoch y cymhorthion hyn?**

| | Do, bob amser | Do, gan amlaf | Anaml | Byth | Nid oedd eu hangen arnaf | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | **8** |
| Cymru | 6% | 5% | 1% | 4% | 83% | **671** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 20: Os oedd angen help arnoch wrth fwyta, a gawsoch hynny?**

| | Do, bob amser | Do, gan amlaf | Anaml | Byth | Nid oedd angen help arnaf | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | **8** |
| Cymru | 9% | 5% | 2% | 2% | 82% | **667** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 21: Os gwnaeth rhywun eich helpu i fwyta, pwy oedd hwnnw?**

| | Gofalwr / gwirfoddolwr | Aelod o'r teulu | Cyfaill | Nyrs | Nid oedd angen help arnaf | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | **8** |
| Cymru | 1% | 5% | 1% | 6% | 87% | **657** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 22: Os gwnaeth rhywun eich helpu i fwyta, a oedd hyn yn fuan ar ôl i'ch bwyd gyrraedd?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nid oedd angen help arnaf | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | **8** |
| Cymru | 7% | 5% | 2% | 1% | 85% | **658** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23a: A oeddech yn fodlon ar yr amser y cafodd eich prydau bwyd eu gweini?**

| | Oeddwn, bob amser | Oeddwn, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 3 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 59% | 34% | 4% | 2% | **685** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23b: A adawyd llonydd i chi rhag nyrsys neu feddygon yn eich trin neu'n eich asesu yn ystod eich prydau bwyd?**

| | Do, bob amser | Do, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 2 | 0 | 1 | **8** |
| Cymru | 50% | 38% | 9% | 3% | **672** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23c: A gawsoch ddigon o amser i orffen eich pryd?**

| | Do, bob amser | Do, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 76% | 21% | 3% | 0% | **680** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23ch: Os gwnaethoch golli pryd, a gawsoch un arall?**

| | Do, bob amser | Do, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 6 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 55% | 25% | 11% | 9% | **583** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23d: A gawsoch y pryd a archebwyd gennych bob amser?**

| | Do, bob amser | Do, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 6 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 56% | 34% | 5% | 4% | **641** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23dd: A oedd ffrwythau ffres ar gael?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 4 | 3 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 51% | 22% | 16% | 11% | **651** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23e: A oedd diodydd ar gael rhwng prydau?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 3 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 69% | 21% | 7% | 3% | **665** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23f: A oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 23% | 15% | 26% | 35% | **615** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23ff: A oedd dŵr ffres ar gael drwy'r dydd?**

| Ysbytai Cwm Taf | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 6 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 85% | 13% | 2% | 1% | **673** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 23g: A oedd eich bwyd yn cael ei weini ar y tymheredd y byddech wedi'i ddisgwyl?**

| | Oedd, bob amser | Oedd, gan amlaf | Anaml | Byth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 3 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 53% | 30% | 10% | 7% | **677** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 24: A gawsoch ddigon o fwyd?**

| | Do | Do, gormod | Naddo, dim digon | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 5 | 3 | 0 | **8** |
| Cymru | 73% | 14% | 13% | **681** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 25a: Sut y byddech yn disgrifio blas y bwyd a gawsoch?**

| | Ardderchog | Da | Derbyniol | Gwael | Gwael iawn | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 2 | 4 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 17% | 37% | 28% | 11% | 6% | **678** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 25b: Sut y byddech yn disgrifio ymddangosiad y bwyd a gawsoch?**

| | Ardderchog | Da | Derbyniol | Gwael | Gwael iawn | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 2 | 6 | 0 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 17% | 39% | 28% | 9% | 7% | **667** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 25c: Sut y byddech yn disgrifio iachusrwydd y bwyd a gawsoch?**

| | Ardderchog | Da | Derbyniol | Gwael | Gwael iawn | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 2 | 5 | 1 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 18% | 39% | 30% | 9% | 5% | **667** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

**Cwestiwn 25ch: Sut y byddech yn disgrifio eich boddhad cyffredinol â'r bwyd a gawsoch?**

| | Ardderchog | Da | Derbyniol | Gwael | Gwael iawn | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 2 | 4 | 2 | 0 | 0 | **8** |
| Cymru | 19% | 37% | 27% | 10% | 8% | **665** |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion Ysbytai*

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk